**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref IM/JJ/ Strategaeth Wres

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

16 Awst 2023

Annwyl Llŷr

Roedd *Cymru Sero Net - Cyllideb Garbon 2* yn cynnwys ymrwymiad i archwilio'r heriau a'r cyfleoedd sy'n ymwneud â gwres carbon isel ac i gyhoeddi strategaeth wres i Gymru yn 2023. Rwy'n cadarnhau ein bod wedi cyhoeddi ein hymgynghoriad **Strategaeth Gwres i Gymru** ar 16 Awst 2023. https://www.llyw.cymru/strategaeth-wres-i-gymru

Mae'r argyfwng hinsawdd yn ei gwneud yn ofynnol inni newid ein dull o ymdrin ag ynni – gan leihau ein galw, cynyddu effeithlonrwydd ynni a defnyddio ffynonellau ynni carbon isel. Mae hyn yn wir am ein dull o wresogi ac oeri gofod yn ein cartrefi, busnesau ac adeiladau cyhoeddus, gan gynnwys gwres ar gyfer coginio a gwres a ddefnyddir gan ddiwydiannau. Pwrpas y strategaeth yw datblygu system wres ddatgarbonedig sy'n cyflawni ein huchelgeisiau sero net a'n helpu i gynllunio ar gyfer dyfodol gwell, tecach a gwyrddach i bob un ohonom.

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 8 Tachwedd 2023, a'n nod yw cyhoeddi dadansoddiad o'r ymatebion yn gynnar yn 2024.  Byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chi.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.